Theatr Genedlaethol Cymru

# Pecyn Recriwtio: Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

Annwyl ymgeisydd

Diolch am eich diddordeb yn y swydd Swyddog Marchnata a Chyfathrebu.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn rhai prysur iawn i'r cwmni wrth i ni drawsnewid rhaglen greadigol y cwmni, o dan arweinyddiaeth artistig Steffan Donnelly, ac ail-adeiladu ein cynulleidfaoedd ar ôl COVID-19. Yn 2023/24, roedd y nifer mynychwyr i gynyrchiadau'r cwmni yn uwch na niferoedd cyn-COVID am y tro cyntaf. Yn ogystal a'r newid yn y rhaglen, mae'r ffordd ry'n ni'n cysylltu a chyfathrebu gyda'n cynulleidfaoedd wedi newid.

Yn 2024 ry'n ni wedi sefydlu Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu newydd a'r 3 prif amcan cyfathrebu yw Llawenydd, Perthnasol a Chydweithiol. Mae hyn yn llywio'r ffordd ni'n ymwneud â chynulleidfa a'r holl gynnwys ni'n creu.

Mae proffil ein cynulleidfa wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf wrth i ni geisio cysylltu â chynulleidfaoedd newydd, yn enwedig plant a phobl ifanc. Y prif ffordd mae cynulleidfaoedd yn clywed am ein gwaith yw'r trwy platfformau digidol, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae gan y cwmni gyfrif ar y platfformau canlynol: Instagram, Facebook, X, TikTok a LinkedIn. Mae creu cynnwys cyson ar gyfer y platfformau yma a chynnal perthynas gyda chynulleidfaoedd yn rhan greiddiol o'r swydd hon. Gan efelychu llawenydd a balchder yn ein gwaith, mae angen i'r cynnwys yma hyrwyddo ein cynyrchiadau ond hefyd amlygu elfennau eraill, yn cynnwys prosiectau cyfranogi, y gwaith artistig mewn datblygiad, a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau.

Ry’n ni’n edrych am rhywun sy’n rhannu ein gwerthoedd, ac sy’n gallu gweithredu ein Strategaeth Marchnata a Chyfathrebu. Mae angen i’r person llwyddiannus fwynhau creu cynnwys ar gyfer platfformau digidol a chroesawu’r her o ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am y swydd a’r cwmni i’w gweld yn y pecyn. Os oes unrhyw beth yr hoffech ei drafod ymhellach, neu unrhyw beth y gallwn ni wneud i’ch cefnogi i ymgeisio am y swydd hon, mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod.

Angharad Jones Leefe
Cyfarwyddwr Gweithredol

**Y CWMNI**

Creu theatr Gymraeg fel man i ddod ynghyd, i gysylltu'r adnabyddus a'r annisgwyl, Cymreictod a'r byd, i drafod yn ddwys ac i godi'r galon.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn creu a chyflwyno cynyrchiadau theatr sy'n anelu at ddifyrru, cyffroi a swyno ein cynulleidfaoedd a thanio eu dychymyg. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd datblygu a fydd yn meithrin ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o artistiaid theatr Cymraeg, ac yn cynnig cyfleoedd creadigol i bobl ledled Cymru brofi effaith drawsnewidiol y celfyddydau.

Fel cwmni cenedlaethol, ry'n ni'n ceisio dangos arweinyddiaeth o fewn y sector, meithrin a datblygu talent, gwneud y mwyaf o gyfleoedd partneriaeth a chydweithio, datblygu a chynyddu cysylltiadau rhyngwladol, a chyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf eang posibl.

Mae dros ugain mlynedd ers sefydlu'r cwmni yn 2003 ac mae'r cwmni wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin ers 2008. Penodwyd Cyfarwyddwr Artistig newydd – Steffan Donnelly – yn 2022, ac mae e ac Angharad Jones Leefe, y Cyfarwyddwr Gweithredol, yn Brif Weithredwyr ar y cyd.

Mae gan y cwmni 15 o staff cyflogedig ar gyfartaledd ond mae'r nifer yn amrywio ychydig yn ddibynnol ar gytundebau tymor penodol. Mae creu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhyrchiol yn bwysig iawn i ni fel cwmni, ac rydym yn darparu cefnogaeth i'n staff fel eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith hyd orau eu gallu. Rydym yn cynnig ystod o opsiynau gweithio hyblyg, yn cynnwys cynllun oriau hyblyg, gweithio rhan amser a gweithio o gartref. Mae lles ein staff yn holl bwysig i ni, ac felly mae ystod o fesurau mewnol wedi eu cyflwyno i ddiogelu staff a cheisio sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Creu a llwyfannu cynyrchiadau theatr yw prif swmp gwaith y cwmni ac mae rhaglen flynyddol fel arfer yn cynnwys tua 4 cynhyrchiad, gyda dau o'r rheini yn teithio yn genedlaethol. Mae'r cynyrchiadau yn amrywio ond maent fel arfer yn rhai graddfa ganolig neu fach. Mae'r canolfannau ry'n ni'n ymweld â nhw'n rheolaidd yn cynnwys Theatr y Sherman yng

Nghaerdydd, Ffwrnes yn Llanelli, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, Galeri Caernarfon, a Pontio ym Mangor. Yn achlysurol, mae'r cwmni yn llwyfannu cynyrchiadau safle benodol, ac yn y gorffennol mae lleoliadau wedi cynnwys Castell Caerffili, Tomen y Mur ac Amgueddfa Sir Gâr yn Abergwili. Ry'n ni hefyd yn cyflwyno gwaith ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r cwmni wedi ei enwebu ar gyfer gwobr Cynhyrchydd y Flwyddyn gan The Stage, a gwobr Rhagoriaeth Mewn Teithio gan UK Theatre ar gyfer cynhyrchiad Parti Priodas. Enwyd cynhyrchiad Rhinoseros yn un o'r 50 drama orau yn 2023 gan The Stage ac fe ymddangosodd Angharad Jones Leefe a Steffan Donnelly, Cyd-Brif Weithredwyr y cwmni, ar restr The Stage 100.

Yn ogystal â chynyrchiadau, mae gan y cwmni raglen o weithgareddau sy'n cynnwys prosiectau ymchwil a datblygu artistig, a gweithgareddau cyfranogi, sy'n amrywio o glybiau drama i blant, i brosiectau iechyd a lles.

Mae gweithwyr llawrydd yn rhan holl bwysig o ecoleg ein sector ac felly mae meithrin a chynnal perthynas effeithiol a chefnogol gyda gweithwyr llawrydd yn hanfodol i'n llwyddiant ni fel cwmni. Ry'n ni hefyd yn gweithio gydag ystod o gwmnïau a sefydliadau eraill er mwyn cyflawni ein gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau cynhyrchu eraill; canolfannau perfformio; Mentrau Iaith; Urdd Gobaith Cymru; Llenyddiaeth Cymru; S4C; y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol; yr Eisteddfod Genedlaethol; CBAC; ysgolion a phrifysgolion; byrddau iechyd ac awdurdodau lleol; a mwy.

Mae ffocws clir gan y cwmni ar gynyddu cynhwysiant ein gweithgareddau, ac mae hyn yn treiddio drwy holl waith y cwmni – o sicrhau profiad hygyrch i gynulleidfaoedd amrywiol i gynnig cyfleoedd gwaith a chyfranogi sy'n apelio at ystod amrywiol o bobl, gan sicrhau eu bod wedi eu hyrwyddo mewn dulliau tryloyw ac agored.

## Manylion y swydd

**Teitl:** Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

**Cyflog:** £27,923

**Cyfnod:** Parhaol

**Oriau:** Llawn Amser (37.5 awr yr wythnos)

**Yn adrodd i'r:** Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu

**Lleoliad:** Mae pencadlys y cwmni yng Nghaerfyrddin, ond ry'n ni'n cynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg, yn cynnwys trefniant gweithio hybrid sy'n golygu cyfuniad o weithio yn y swyddfa a gweithio o gartref. Byddai'r union drefniant yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

**Hawl i Wyliau Blynyddol:** 25 diwrnod + gwyliau cyhoeddus + 2 ddiwrnod cwmni adeg y Nadolig

### Cyfrifoldebau allweddol:

Prif gyfrifoldeb y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu yw cefnogi'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, gyda ffocws ar reoli sianeli cyfryngau cymdeithasol y cwmni. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda'r Rheolwr MaCH i lunio ac arwain ymgyrchoedd marchnata; creu copi a chynnwys digidol cyffrous ac effeithiol; delio gyda'r wasg er mwyn hyrwyddo'n gwaith ymhellach; a datblygu a diweddaru gwefan a chyfryngau cymdeithasol y cwmni.

Mae gan y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu rôl bwysig wrth i ni geisio datblygu ein cynulleidfaoedd, ac mae cyfle i'r Swyddog gynnig syniadau am sut i ddenu a chadw cynulleidfaoedd. Mae meithrin perthynas gydag ystod o randdeiliaid yn hollbwysig, yn ogystal ag adrodd straeon am waith cyfranogi a datblygu sgiliau y cwmni.

Mae gan y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu gyfrifoldebau pellach yn ymwneud â data a hygyrchedd, a chefnogi strategaeth codi arian y cwmni.

Ceir rhagor o wybodaeth am y tasgau'n ymwneud â'r cyfrifoldebau uchod yn y swydd-ddisgrifiad llawn ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Am beth ry’n ni’n chwilio?**

Ry’n ni’n awyddus i glywed gennych os ydych:

- yn mwynhau gweithio mewn amgylchedd byrlymus a chyffrous
- wedi cael profiad o weithredu cynlluniau marchnata a chyfathrebu
- yn mwynhau creu a golygu cynnwys digidol, ynghyd â phrofiad o wneud hynny’n llwyddiannus
- wedi cael profiad o ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd ar blatfformau rhwydweithio cymdeithasol

Wrth wneud cais am y swydd hon, rydyn ni eisiau i chi ddangos eich bod:

- yn gallu cyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a’r Saesneg i safon uchel – ar lafar ac yn ysgrifenedig
- yn dda am flaenoriaethu, rheoli llwyth gwaith a datrys problemau
- yn ymfalchïo yn eich gwaith ac yn mynd ati gydag agwedd gadarnhaol ac adeiladol

Ceir rhagor o wybodaeth am y sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer y swydd yma yn y Manyleb Person ar ddiwedd y ddogfen hon.

**Dyletswyddau**

| Marchnata a Chyfathrebu |
|---|
| • Cefnogi'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu (MaCh) i weithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu'r cwmni, gyda'r nod o gryfhau'r berthynas gyda chynulleidfa'r cwmni ac ehangu ymwybyddiaeth o'r cwmni a'i waith yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.<br>• Gweithio gyda'r Rheolwr MaCh i lunio ymgyrchoedd marchnata creadigol ar gyfer holl gynyrchiadau a phrosiectau'r cwmni – gan gynnwys marchnata digidol, print, y wasg a gweithio gyda chanolfannau perfformio.<br>• Arwain ymgyrchoedd marchnata creadigol yn ôl y galw; gallai'r rhain gynnwys cynyrchiadau, prosiectau cyfranogi neu brosiectau amgen.<br>• Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y cwmni, gan datblygu syniadau, creu asedau a gweithredu amserlen sy'n cynnal diddordeb dilynwyr.<br>• Creu cynnwys fideo a thynnu lluniau o safon uchel i'w defnyddio ar wefan a phlatfformau digidol y cwmni.<br>• Rheoli a diweddaru gwefan y cwmni, gan sicrhau bod cynnwys yn cael ei rannu'n rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb dilynwyr.<br>• Creu copi a chynnwys digidol o safon uchel sy'n marchnata a hyrwyddo holl waith y cwmni gan gynnwys y rhaglen artistig, gweithgareddau cyfranogi ac addysg, a digwyddiadau amrywiol eraill.<br>• Gweithio'n agos gyda dylunwyr, cyfieithwyr, prawf-ddarllenwyr, ffotograffwyr, cwmnïau creadigol ac asiantaethau digidol i oruchwylio'r broses o greu a dylunio.<br>• Drafftio datganiadau'r wasg a delio ag unrhyw ymholiadau gan y wasg a'r cyhoedd am wybodaeth, lluniau, fideos. a.y.b.<br>• Cefnogi'r Rheolwr MaCH i gynnal partneriaethau gydag adolygwyr, newyddiadurwyr a chysylltiadau yn y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru a thu hwnt er mwyn ehangu systemau cyfathrebu a chodi proffil y cwmni.<br>• Cefnogi'r Rheolwr MaCh i gynnal perthynas dda gyda chanolfannau perfformio ledled Cymru a sicrhau bod staff y canolfannau'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am gynyrchiadau'r cwmni, er mwyn gwella profiad y gynulleidfa. |

- Cynorthwyo gyda threfniadau a mynychu digwyddiadau cenedlaethol a lleol ar ran y cwmni e.e. Eisteddfod Genedlaethol, nosweithiau i westeion, cynadleddau, diwrnodau agored, a.y.b.
- Cydlynu archif lluniau, fideo a deunyddiau marchnata o holl gynyrchiadau a gwaith Theatr Genedlaethol Cymru gan sicrhau ei bod yn gyflawn, yn gyfredol ac yn rhwydd i'w defnyddio.

**Datblygu Cynulleidfa**

- Cynnig syniadau ar gyfer datblygu a denu cynulleidfaoedd newydd a chodi proffil y cwmni.
- Meithrin, magu a datblygu perthynas gydag ystod eang o randdeiliaid i'w galluogi i fod yn llysgenhadon a hyrwyddwyr effeithlon i'r cwmni a'i waith.
- Marchnata cyfleoedd i gymryd rhan, hyrwyddo gweithgareddau amrywiol ac adrodd straeon am waith cyfranogi a datblygu sgiliau'r cwmni.

**Data a Hygyrchedd**

- Gweinyddu a diweddaru rhestr gyswllt y cwmni.
- Monitro effeithlonrwydd gwaith marchnata a chyfathrebu'r cwmni drwy gadw cofnod o niferoedd cynulleidfa ac ymwneud ar y cyfryngau cymdeithasol, a chasglu unrhyw ddata perthnasol.
- Cynorthwyo'r Rheolwr MaCh i sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio â'r cyfreithiau sy'n ymwneud â data, yn benodol y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
- Sicrhau bod holl ddeunyddiau marchnata'r cwmni a'r wefan mor hygyrch â phosib.

**Arall**

- Cefnogi unrhyw waith marchnata neu hyrwyddo sy'n gysylltiedig â datblygu incwm a nawdd.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Gweithredol i weithredu strategaeth datblygu nawdd y cwmni.
- Cynorthwyo'r Tîm Cyfranogi i weinyddu'r Casgliad Dysgu.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill rhesymol ar gais y Rheolwr MaCh.

**Manyleb Person**

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau a Hyfforddiant** | | |
| Cymhwyster proffesiynol (gradd/diploma) ym maes marchnata | | ✓ |
| **Profiad** | | |
| Profiad o weithredu cynllun marchnata | ✓ | |
| Profiad marchnata o fewn y byd celfyddydol | | ✓ |
| Profiad o hyrwyddo cwmni a phrosiectau creadigol | | ✓ |
| Profiad o weithredu technoleg ddigidol a phlatfformau rhwydweithio cymdeithasol | ✓ | |
| Profiad o greu a golygu cynnwys digidol (gan gynnwys fideos, GIFs a blogs) | ✓ | |
| **Gwybodaeth** | | |
| Ymwybyddiaeth o dueddiadau marchnata a chyfathrebu ym maes y theatr yng Nghymru a thu hwnt | | ✓ |
| Gwybodaeth am ddefnydd ac arferion da mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol | | ✓ |
| **Sgiliau** | | |
| Y gallu i gyfathrebu a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – i safon uchel | ✓ | |
| Sgiliau technoleg gwybodaeth ragorol | ✓ | |
| Sgiliau creu a golygu fideos | ✓ | |

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Y gallu i feddwl am syniadau creadigol a dulliau arloesol o ymgysylltu gyda chynulleidfa | ✓ | |
| Y gallu i weithio fel aelod o dîm ac yn annibynnol | ✓ | |
| Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol | ✓ | |
| Trwydded yrru gyfredol | | ✓ |

**I wneud cais:**

- Llenwch y ffurflen gais

  NEU

- Cyflwynwch fideo byr ohonoch chi’ch hun, gan ateb y cwestiynau a nodir ar y ffurflen gais.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael fformat gwahanol, cysylltwch â ni’n uniongyrchol drwy e-bostio angharad.leefe@theatr.com neu ffonio 07903 842554.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn defnyddio’r model cymdeithasol o anabledd, gan gydnabod bod rhai pobl yn profi rhwystrau sy’n anablu. Byddwn yn cyfweld unrhyw ymgeisydd anabl sy’n bodloni meini prawf y swydd, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw ofynion mynediad mewn cyfweliad, neu wedi hynny os penodir yr ymgeisydd.

Rhaid i bob ymgeisydd lenwi Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal.

**Mynediad/Cefnogaeth**

Bydd yr holl offer technoleg gwybodaeth sy’n ofynnol ar gyfer y swydd yn cael ei ddarparu gan Theatr Genedlaethol Cymru.

Mae ein swyddfeydd yng Nghaerfyrddin yn gwbl hygyrch ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn.

Gall Theatr Genedlaethol Cymru gefnogi deiliad y swydd gyda chais Mynediad i Waith er mwyn sicrhau cefnogaeth yn seiliedig ar eich anghenion. Gallai hyn gynnwys grant i helpu talu costau cymorth ymarferol yn y gweithle neu gartref, cymorth i deithio i'r gwaith ac yn ôl, gwasanaethau gweithiwr cymorth a/neu gymorth iechyd meddwl. Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/mynediad-at-waith

Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn agored i drafod unrhyw gymorth/adnoddau ychwanegol y gallai fod eu hangen arnoch yn ystod y broses ymgeisio, neu ar ôl recriwtio i'r swydd, i'ch galluogi i wneud eich gwaith gorau. Ni fydd hyn yn effeithio ar ba mor gymwys ydych chi ar gyfer y swydd nac ar gryfder eich cais. I gael sgwrs anffurfiol am gymorth ychwanegol, cysylltwch ag Angharad Leefe drwy e-bostio angharad.leefe@theatr.com neu ffonio 07903 842554.